OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 2154

# Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2009

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Taliadau Gohiriedig) (Cymru) 2009, a deuant i rym ar 28 Awst 2009.

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) 1989**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) 1989(**1**) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 7B (Taliadau gohiriedig: darpariaeth arbennig mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2009, 2010 a 2011) mewnosoder—

"**Deferred payments: special provision in relation to Wales for the financial years beginning on 1 April 2009, 2010 and 2011**

**7C.** Schedule 1D which contains special provision in relation to payments under demand notices relating to financial years beginning on 1 April 2009, 1 April 2010 and 1 April 2011, must have effect.".

(3) Ar ôl Atodlen 1C, mewnosoder Atodlen 1D, a gynhwysir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Canolog) 1989**

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Canolog) 1989(**2**) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 7 (taliadau o dan hysbysiadau galw am dalu: darpariaeth bellach) mewnosoder—

"**Deferred payments: special provision in relation to Wales for the financial years beginning on 1 April 2009, 2010 and 2011**

**7B.** Schedule 1B, which contains special provision in relation to payments under demand notices relating to financial years beginning on 1 April 2009, 1 April 2010 and 1 April 2011, must have effect.".

(3) Ar ôl Atodlen 1A, mewnosoder Atodlen 1B, a gynhwysir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 1989/1058, y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 1989/2260, y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

### Addasu Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993

**4.**—(1) Rhaid i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**3**) fod yn gymwys mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2010 ac 1 Ebrill 2011 fel pe bai'r diffiniad o "the relevant year" yn rheoliad 2 (dehongli) wedi ei ddisodli gan y canlynol—

> ""the relevant year", in relation to a notice, means the financial year to which the demand for payment made by the notice relates; but where, pursuant to regulation 4 (the requirement for demand notices) of the Non-Domestic Rating (Collection and Enforcement) (Local Lists) Regulations 1989 (as modified by the Non-Domestic Rating (Deferred Payments) (Wales) Regulations 2009), the notice relates to more than one chargeable financial year "the relevant year" means the financial year beginning on 1 April 2010 or 1 April 2011 (as the case may be);".

### Addasu Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992

**5.** Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2009, rhaid i reoliad 6 (ailgyfrifo symiau amodol) o Reoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**4**) gael effaith fel pe bai paragraffau (2)(b) a (4) wedi eu hepgor.

*Brian Gibbons*
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

31 Gorffennaf 2009

(**3**) O.S. 1993/252, y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) O.S. 1992/3238, y mae diwygiadau iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.